# Arolygiad Gofal Iechyd (Lle Rhoddwyd Rhybudd) - Cutis Cosmetic Clinic

Dyddiad arolygu: 28 Mawrth 2019

Dyddiad cyhoeddi: 1 Gorffennaf 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-83876-617-7



(h) Hawlfraint y Goron 2019

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym........ 7

Ansawdd profiad y claf ........ 8

Darparu gofal diogel ac effeithiol ........ 13

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth nesaf? ........ 20

5. Sum rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol ........ 21

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 22

Atodiad B – Cynllun gwella ........ 23

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

# Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

# Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

| | |
|---|---|
| Rhoi sicrwydd: | Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal |
| Hybu gwelliant: | Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da |
| Dylanwadu ar bolisi a safonau: | Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cutis Cosmetic Clinic ar 28 Mawrth 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod Cutis Cosmetic Clinic yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau laser.

Roedd yr adborth a ddaeth i law yn gadarnhaol iawn, gyda'r mwyafrif o'r cleifion yn nodi bod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân iawn ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd prosesau ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion.
- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.
- Roedd nodiadau a chofnodion cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.
- Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser yn ddiogel.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion mewn mannau i gynnwys mwy o wybodaeth am y gwasanaeth.
- Dylai'r rheolwr cofrestredig gael hyfforddiant diogelu priodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Cutis Cosmetic Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn 395 Heol Gŵyr, Cilâ, Abertawe, SA2 7AH.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 01 Tachwedd 2013 ac mae'n cyflogi un gweithredwr laser. Ef yw'r rheolwr cofrestredig hefyd.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i bobl dros 18 oed, ac eithrio gwaredu gwallt, y gellir ei ddarparu i gleifion dros 13 oed:

Laser Dosbarth 4 Cynosure Apogee Elite

- Triniaeth pigmentiad
- Triniaeth fasgwlaidd
- Adfywio'r croen
- Gwaredu gwallt.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir a bod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn a nododd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael yn ardderchog.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Rwyf wedi cael fy nhrin â pharch bob amser, rwyf wedi cael cyngor proffesiynol a chael canlyniadau gwych o'r driniaeth laser ar wallt fy wyneb dros y ddwy flynedd ddiwethaf – gwasanaeth gwych!"*

> *"Mae'r meddyg yn darparu gwasanaeth ardderchog. Mae popeth yn cael ei esbonio'n glir ac yn broffesiynol bob amser."*

> *"Rwy'n hollol fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir ac ni allaf feddwl am unrhyw ffyrdd o'i wella. Mae'r driniaeth a'r gofal a geir gan y meddyg bob amser yn rhagorol."*

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgynghoriad cychwynnol a bod rhaid iddynt lofnodi ffurflen cyn pob triniaeth ddilynol sy'n cadarnhau a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau yng nghofnodion cleifion i gadarnhau'r ymagwedd hon. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur hefyd ei fod yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau ei hanes meddygol, bob amser cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

## Urddas a pharch

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch yn y clinig ac yn teimlo, lle y bo'n berthnasol, ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cyfleusterau newid preifat ar gael mewn toiled cleifion y gellir ei gloi gerllaw'r ystafell driniaeth a bod y drws i'r ystafell driniaeth bob amser dan glo yn ystod triniaeth er mwyn cynnal urddas y claf yn ystod y driniaeth.

Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb gael eu clywed.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod croeso i hebryngwyr ddod gyda chleifion ac y gallant aros yn yr ystafell driniaeth drwy gydol y driniaeth.

## Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Nodwyd gennym fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn triniaeth laser. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig. Hefyd, ar ôl eu hymgynghoriad, bydd y cleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig am eu triniaeth laser i fynd gyda nhw.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn ei helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddo a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn llofnodi ffurflen gydsynio bob amser cyn cael unrhyw driniaeth newydd.

Dywedodd pob claf wrthym ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Rhoddwyd datganiad manwl o ddiben[1] i ni gan y rheolwr cofrestredig a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd canllaw i gleifion wedi'i arddangos y tu allan i'r ystafell driniaeth. Mae angen diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau; mae angen iddo gynnwys gwybodaeth ar sut y gall cleifion dalu am eu triniaeth, crynodeb o farn cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig a gwybodaeth am drefniadau cydsynio ar gyfer cleifion dan 16 oed sydd am dderbyn triniaeth o bosibl.

Daeth i'n sylw fod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion wedi'u hadolygu ddiwethaf yn 2015. Rydym yn cynghori y dylid adolygu'r ddwy ddogfen yn flynyddol o hyn ymlaen, a'u diweddaru os bydd angen.

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd y gwrandawyd arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

[1] Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw Datganiad o Ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru ei ganllaw i gleifion i gynnwys gwybodaeth am y dulliau talu sydd ar gael i gleifion er mwyn talu am eu triniaeth, a darparu copi i AGIC.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru ei ganllaw i gleifion i gynnwys crynodeb o farn cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig, a darparu copi i AGIC.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru ei ganllaw i gleifion i gynnwys gwybodaeth am y trefniadau cydsynio sydd ar waith yn y clinig er mwyn i gleifion dan 16 oed dderbyn triniaeth, a rhoi copi i AGIC.

### Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod rhaid i gleifion gytuno i gael prawf clwt cyn cael triniaeth er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser o ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael prawf clytiau cyn dechrau cael triniaeth.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau ardderchog ar gyfer cadw cofnodion yn y clinig, gan gynnwys nodiadau manwl am gleifion a chofrestr gynhwysfawr ynghylch triniaethau cleifion.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r clinig mewn rhandy unllawr y tu ôl i gartref preswyl ac mae'r holl gyfleusterau'n hygyrch i bobl â phroblemau symudedd. Mae'r rhandy'n cynnwys ardal aros fach, toiled i gleifion, un ystafell driniaeth ac ystafell â chyfleusterau i'r staff.

### Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i geisio adborth gan gleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae cardiau sylwadau ar gael yn yr ardal aros ac anogir cleifion hefyd i gwblhau adolygiad am eu profiad yn y clinig drwy wefan neu dudalen Facebook y clinig.

Mae'r rheolwr cofrestredig hefyd yn cyflwyno holiadur blynyddol i gleifion; caiff canlyniadau'r holiaduron hyn eu dadansoddi gan y rheolwr cofrestredig a chaiff crynodeb ysgrifenedig ei lunio. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i arddangos y canlyniadau hyn yn yr ystafell aros er mwyn hysbysu cleifion.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ymwybodol bod eu barn ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y clinig yn cael ei geisio, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Roedd y peiriannau laser yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddefnyddio'r peiriannau.

Roedd yr ystafell driniaeth yn cynnwys yr offer priodol ac yn amlwg yn lân ac yn daclus iawn.

Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel, ond mae angen i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed; roedd angen diweddaru'r polisi ysgrifenedig hefyd.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y rheolwr cofrestredig a phobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriad wedi'i gynnal ar y gwifrau trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf a bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) yn cael eu gwneud i sicrhau bod yr offer yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel ac addas. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ystyried cynnal PAT newydd ar yr offer gan y gwnaed y prawf blaenorol ym mis Tachwedd 2017.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau mewn perthynas â diogelwch tân. Gwelsom fod profion larymau tân ac ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu cofnodi mewn llyfr cofnod. Gwelsom dystiolaeth bod y diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Nodwyd gennym hefyd fod arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys priodol a chawsom ein sicrhau bod y rheolwr cofrestredig wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf addas fel rhan o'i haelodaeth ardystiedig â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau yn y clinig a oedd yn ein barn ni'n gyson â'r gweithdrefnau a amlinellir ym mholisi rheoli heintiau'r gwasanaeth. Gwelsom hefyd fod contract glanhau ar waith ac yn cael ei gadw'n gyfredol.

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gyfer cynhyrchion mislif yn nhoiled y cleifion. Rhaid cael bin cynhyrchion misglwyf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn nhoiled y cleifion.

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth gwaredu gwallt i gleifion dros 13 oed yn unig a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn. Dywedwyd wrthym fod angen i gleifion dan 18 oed gyflwyno cydsyniad rhieni cyn derbyn triniaeth, ac na chaniateir i unrhyw blant sy'n dod gydag oedolion sy'n derbyn triniaeth fynd i mewn i'r ystafelloedd triniaeth.

Gwelsom nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi derbyn hyfforddiant diogelu ers cofrestru gydag AGIC gyntaf yn 2013. Rydym yn argymell bod y rheolwr cofrestredig yn cael yr hyfforddiant priodol o ran amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod ei wybodaeth am ddiogelu yn gyfredol.

Gwelsom fod polisïau ar wahân ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Fodd bynnag, nid oedd y naill bolisi na'r llall yn

pennu'r mathau gwahanol o gam-drin, nac yn disgrifio arwyddion camdriniaeth posibl y dylid cadw golwg amdanynt.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed a dylid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC.

Mae'n rhaid diweddaru'r polisïau ar gyfer diogelu plant ac oedolion er mwyn cynnwys diffiniadau o'r mathau gwahanol o gamdriniaeth, ac arweiniad ar sut i adnabod arwyddion camdriniaeth.

## Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth fod y Laser Dosbarth 4 Cynosure Apogee Elite wedi'i wasanaethu a'i galibradu[2] yn rheolaidd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Gwelsom fod protocol triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser yn ddiogel. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y protocol triniaeth wedi'i lunio'n wreiddiol gan ymarferydd meddygol arbenigol addas ac wedi'i adolygu'n flynyddol gan y rheolwr cofrestredig ei hun yn ei rôl fel aelod ardystiedig o'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Gwelsom fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a bod rheolau lleol cynhwysfawr[3] ar waith a oedd yn manylu ar sut i weithredu pob peiriant laser yn ddiogel. Roedd y rheolau hyn wedi'u hadolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a gwelsom eu bod wedi cael eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig, sy'n dangos ei fod yn ymwybodol o'r rheolau hyn a'i fod wedi cytuno i'w dilyn.

---

[2] Gall calibradu rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

[3] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[4] yn yr amser gofynnol, a'i fod hefyd wedi derbyn hyfforddiant gan y gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y laser. Roedd yn amlwg bod cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr y broses yn fanwl; mae arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth yn rhoi rhybudd pan fydd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio, a chaiff yr ystafell driniaeth ei chloi er mwyn atal unrhyw unigolion anawdurdodedig rhag mynd i mewn i'r ystafell yn ystod triniaethau. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw dan glo bob amser.

Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth sydd ar waith mewn perthynas ag asesiadau risg amrywiol a gynhaliwyd gan y clinig. Gwelsom dystiolaeth fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg diweddar lle na nodwyd bod angen unrhyw welliannau.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod gan y gwasanaeth systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, yn dilyn triniaeth, roedd y gwasanaeth yn rhoi cyfle i gleifion roi adborth drwy holiaduron ac adolygiadau ar-lein.

Gwelsom hefyd dystysgrifau cyrsiau hyfforddiant perthnasol a ddilynwyd gan y rheolwr cofrestredig i ddatblygu ei sgiliau a'i gwybodaeth er mwyn helpu i wella'r gofal i gleifion.

## Rheoli cofnodion

[4] Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion cleifion ar bapur yn cael eu cadw dan glo mewn cabinet yn yr ystafell driniaeth, ac mae'r allweddi i'r cabinet yn cael eu cadw dan glo mewn coffor bob nos.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth bod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel, gan ddangos bod diogelwch a llesiant cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno gofal.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod unrhyw ffotograffau sy'n cael eu tynnu yn ystod sesiynau triniaeth yn cael eu cadw'n electronig ac roeddent yn cael eu copïo'n ddiogel bob wythnos.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithdrefnau ac roeddent i gyd yn cael eu diweddaru'n flynyddol.

Roedd gweithdrefn cwynion gynhwysfawr ar waith i sicrhau yr ymatebir i unrhyw gwynion yn effeithlon ac yn effeithiol.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Cutis Cosmetic Clinic ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd a hi yw'r unig weithredwr laser.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a oedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u bod yn hawdd cael gafael arnynt.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion briodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae crynodeb o'r weithdrefn cwynion wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben yn y canllaw i gleifion.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion a phryderon ffurfiol neu anffurfiol.

### Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig, fel unig weithredwr awdurdodedig y peiriant laser, wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Hefyd, nodwyd gennym fod y rheolwr cofrestredig yn cadw ei sgiliau a'i gwybodaeth yn gyfredol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus[5] (DPP).

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael eu diogelu rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel.

[5] Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yw'r broses o ddogfennu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a gafwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol er mwyn helpu i wella diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Cutis Cosmetic Clinic

## Dyddiad arolygu: 28 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru ei ganllaw i gleifion i gynnwys gwybodaeth am y dulliau talu sydd ar gael i gleifion er mwyn talu am eu triniaeth, a darparu copi i AGIC. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>Rheoliad 7 | Mae'r canllaw i gleifion wedi'i ddiweddaru, gyda phob un o'r tri phwynt wedi'u hychwanegu. | Dr Dave | Cwblhawyd |
| Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru ei ganllaw i gleifion i gynnwys crynodeb o farn cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig, a darparu copi i AGIC. | | | | |
| Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru ei ganllaw i gleifion i gynnwys gwybodaeth am y trefniadau cydsynio sydd ar waith yn y clinig er mwyn i gleifion dan 16 oed dderbyn triniaeth, a | | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| rhoi copi i AGIC. | | | | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r gwasanaeth drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn nhoiled y cleifion. | Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith | Gosodwyd bin ar wahân sydd wedi'i labelu'n briodol. | Dr Dave | Cwblhawyd |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig gael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed a dylid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Mae'r ddau hyfforddiant yn gyfredol | Dr Dave | Cwblhawyd |
| Mae'n rhaid diweddaru'r polisïau ar gyfer diogelu plant ac oedolion er mwyn cynnwys diffiniadau o'r mathau gwahanol o gamdriniaeth, ac arweiniad ar sut i adnabod arwyddion camdriniaeth. | Rheoliad 16<br><br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau | Diweddarwyd y polisïau | Dr Dave | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br><br>Safon 11 | | | |

| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth |
|---|
| Ni wnaed unrhyw argymhellion. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (printiwch): Rupa Dave**

**Swydd: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 16/05/19**